***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Paragraff 9 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 03 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

# ATODLEN 6

# RHESYMOLDEB ATAL CYDSYNIAD, ETC.

## RHAN 3

## AMGYLCHIADAU A ALL FOD YN BERTHNASOL I RESYMOLDEB MEWN CYSYLLTIAD Â THRAFODION PENODOL

*Adran 49: cyd-ddeiliad contract arfaethedig*

9 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo deiliad y contract o dan y contract meddiannaeth yn ceisio cydsyniad y landlord i ychwanegu cyd-ddeiliad contract o dan adran 49.

(2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i'r amgylchiadau a ganlyn (yn ogystal â'r rheini sydd yn Rhan 2) gael eu hystyried (i'r graddau y maent yn berthnasol)—

(a) pa un a yw'r cyd-ddeiliad contract arfaethedig yn ddeiliad contract addas;

(b) pa un a yw'n aelod o deulu deiliad y contract (gweler adran 250) ac, os felly, natur y berthynas;

(c) pa un a yw'r cyd-ddeiliad contract arfaethedig yn debygol o ddod yn unig ddeiliad contract mewn perthynas â'r annedd;

(d) pa un a yw'r cyd-ddeiliad yn debygol, pe na bai'n cael ei wneud yn gyd-ddeiliad contract, o olynu i'r contract o dan adran 73.

(3) Gall amgylchiadau sy'n berthnasol i is-baragraff (2)(a) gynnwys pa un a yw cyd-ddeiliad y contract—

(a) yn debygol o gydymffurfio â'r contract, a

(b) wedi cydymffurfio â chontractau meddiannaeth eraill (boed fel deiliad contract o dan y contractau hynny neu fel arall).

(4) Gall amgylchiadau sy'n berthnasol i is-baragraff (2)(c) gynnwys—

(a) pa un a fyddai'r landlord wedi gallu gwrthod cydsynio pe byddai deiliad y contract wedi gofyn am gydsyniad y landlord i drosglwyddo'r contract i'r cyd-ddeiliad contract arfaethedig, a

(b) unrhyw amgylchiadau a fyddai'n berthnasol pe byddai'r landlord yn ystyried pa un ai wneud contract meddiannaeth newydd gyda'r person hwnnw mewn perthynas â'r annedd ai peidio.

(5) Gall amgylchiadau sy'n berthnasol i is-baragraff (2)(d) gynnwys effaith debygol rhoi cydsyniad ar—

(a) y personau a all fod yn gymwys i olynu i'r contract meddiannaeth yn y dyfodol, a

(b) y cyfnod y mae'r contract meddiannaeth yn debygol o barhau i fod mewn grym os oes un neu ragor o'r personau hynny yn olynu iddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 6 para. 9 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** Atod. 6 para. 9 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Paragraff 9 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 03 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

– s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
– s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
– s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
– s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5